

## Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff Newyddlen 2020

### Rhestr o Gyrsiau

#### BSc


Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff  
Gwyddorau Biofeddygol (Maeth, Iechyd  
ac Ymarfer)  
Bioleg ac Iechyd Dynol  
Gwyddorau Bywyd

#### MBiol

Bioleg

#### Diddordeb?

Ffoniwch Dr Marco Arkesteijn ar 01970  
628559 neu E-bost: maa36@aber.ac.uk



# IBERS

 Athrofa y Gwyddorau Biolegol,  
Amgylcheddol a Gwledig

## Defnyddio chwaraeon er mwyn rhoi ar waith yr hyn a ddysgwch yn y modiwlau.

Yn aml, mae brwdfrydedd angerddol tuag at chwaraeon yn ffactor allweddol wrth benderfynu astudio Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Os gallwch gyfuno dysgu am y corff dynol, a rhoi'r wybodaeth yna ar waith ar unwaith er mwyn deall eich perfformiad yn well, mae'n debygol o aros gyda chi. Wrth gwrs, mae dosbarthiadau ymarferol a seminarau yn gallu eich helpu i wneud hyn ac yn eich helpu i ymestyn eich gorwelion mewn meysydd eraill megis ymarfer corff ac iechyd. Ond does dim yn well na defnyddio'r wybodaeth ar gyfer eich diddordebau personol eich hun. Ac os gallwch gyfuno hynny ag Ysgoloriaeth Chwaraeon sy'n cael ei chynnig gan y Brifysgol, byddwch ar eich hennill, ddwywaith. Mae Mathew Jones, er enghraifft, yn derbyn ysgoloriaeth Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth, fel rhan o'r bartneriaeth â'r tîm lleol yn Uwch Gynghrair Cymru, y mae ei bellach yn chwarae iddo.

Mathew: "Mae astudio a chwarae pêl-droed i Aberystwyth wedi bod yn brofiad difyr hyd yn hyn gan fy mod i wedi cwrrd â llawer o bobl newydd yn y brifysgol yn ogystal â thu allan. Mae'r llwyth gwaith yn fy nghadw'n brysur ac mae'n ffordd dda i beidio â phoeni am bêl-droed ac fel arall. Hefyd, mae'n dda gallu defnyddio fy ngwybodaeth am bêl-droed ar gyfer rhai o aseiniadau'r cwrs. Er enghraifft, defnyddiais fy ngwybodaeth am bêl-droed yn yr aseiniad dysgu echddygol ar gic gosb. Mae mwy o wybodaeth am gymhelliant (e.e. cymhelliant cynhenid ac allanol) ac agwedd (e.e. siarad yn gadarnhaol amdanaf fy hun) a meddwl yn bositif wedi newid y ffordd rwy'n chwarae pêl-droed. A bod gwahanol strategaethau, er enghraifft, yn berthnasol cyn ac ar ôl gemau."




Mathew Jones yn chwarae i Glwb Pêl-droed Tref Aberystwyth

## Llwyddiant Arloesi Myfyriwr

Mae ein cynlluniau gradd newydd, sef Bioleg Ddynol a Gwyddorau Iechyd a Biofeddygol yn rhannu llawer o fodiwlau â chynlluniau gradd mwy sefydledig. Er enghraifft, mae traddodiad hir o Fiocemeg yn IBERS, ac yn ystod yr haf, enillodd myfyriwr Biocemeg ar ei blwyddyn olaf, Eleanor Wilson, Wobrau STEM Telegraph 2019. Roedd prosiect ymchwil trydedd flwyddyn Eleanor, gyda Dr Hazel Davey, yn edrych ar ddefnyddio technoleg golygu'r genyn CRISPR mewn ffordd newydd – i adnabod clefyd yn hytrach na golygu genynnau. Trwy ddatblygu syniadau ei phrosiect ymhellach, daeth Eleanor o hyd i ffordd all ganfod presenoldeb dilyniannau DNA penodol - yn yr achos hwn, dilyniannau diagnostig Myxobacterium tuberculosis, sef cyfrwng achosol twberculosis.

Enillodd syniad Eleanor categori gofal iechyd GlaxoSmithKline yng ngwobrau Telegraph STEM, cyn mynd ymlaen i'r rownd derfynol. Roedd yn cystadlu yn erbyn enillwyr y pedwar categori arall mewn digwyddiad uchel ei broffil yn Llundain, a syniad Eleanor enillodd y brif wobwr. Meddai Eleanor, ar ôl ennill y wobwr, "Cefais syniad gwallgof, arloesol a'i ddatblygu, ac mae'r holl arbenigwyr yn y maes wedi dweud: 'Ie, mi all hyn weithio.' Bydd yn agor cymaint o ddrysau."

her healthcare category submission, using a CRISPR based system for diagnosing TB @STEMawards #globalhealth #innovation @RachelRileyRR



Trydariat gan GlaxoSmithKline yn dangos Eleanor (yn y canol) yn derbyn ei gwobr yn seremoni Wobrwyo TelegraphSTEM.

## Mae'n braf clywed gan ein graddedigion bob amser.

Dechrau eich gyrfa yn unig yw eich gradd, a bydd angen cymryd llawer mwy o gamau ar ôl gosod y sylfaen. Ein nod yw cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i chi yn ogystal â'r modiwlau, er mwyn ichi ddatblygu eich hun cymaint â phosibl. Ar ôl ichi raddio, mae'r darlithwyr wrth eu bodd yn clywed am eich datblygiad.

O dro i dro, byddwn yn derbyn y math o e-bost a welir isod sy'n ein gwneud ni'n hapus ac yn falch o fod yn y proffesiwn dysgu! Hyderwn y byddwch yn mwynhau darllen yr e-bost cymaint ag y gwnaethom ni!

Annwyl Dr Thatcher,

Wn i ddim a fyddwch yn fy nghofio ai peidio ond rwyf yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth a astudiodd Wyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Fy enw yw Chloe Bailey a graddiais yn 2018, ac roeddech chi'n un o fy narlithwyr ar y pryd. Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i ddweud diolch, i chi, yr holl staff gwyddor chwaraeon ac i Brifysgol Aberystwyth, oherwydd heboch chi ni fyddwn yn y sefyllfa rwyf ynddi ar hyn o bryd.

Ers Aberystwyth, rwyf wedi cwblhau cwrs Meistr mewn Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd. Dechreuais ymddiddori mewn dadansoddi perfformiad diolch i ddarlithoedd biomecaneg Dr Marco Arkesteijn, cefnogaeth Dr Dan Low, sef tiwtor fy nhraethawd estynedig, a'r cyfle (a ddarparwyd gan yr Adran) i wirfoddoli fel dadansoddwr profiad gyda Chwaraeon Anabled Cymru.

Bûm ar ddau leoliad yn ystod fy nghwrs Meistr, (1) Tîm Pêl-rwyd Cymru – y Dreigiau Celtaidd fel prif ddadansoddwr eu perfformiad, a (2) bûm yn ddadansoddwr perfformiad Rygbi UDA. "Byddwch yn derbyn yr un faint ag y byddwch yn ei roi" – dyna wnaethoch chi ddweud yn ystod fy nhrydedd flwyddyn, Dr Thatcher – ac mae'r dyfyniad hwn wedi aros gyda mi ac wedi fy nghynnal a'm hysbrydoli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yma, wrth imi gwblhau dau leoliad ar yr un pryd â gwneud cwrs Meistr, er mwyn cyrraedd y nod.

Byddaf yn cyflwyno fy nhraethawd ymchwil Meistr fis nesaf, a fi yw'r dadansoddwr benywaidd cyntaf a'r prif Ddadansoddwr Data ar ôl gemau ar gyfer Clwb Pêl-droed Tottenham Hotspur, yn 22 oed. Rwyf yno ers 3 mis bellach ac rwyf: (1) wedi gweithio gyda Mauricio Pochettino; (2) bellach yn gweithio gyda Jose Mourinho; (3) yn gweithio un-i-un gyda phêl-droedwyr sy'n enwog drwy'r byd i gyd; a (4) yn hedfan i bedwar ban byd. Ac mae'r diolch i Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff Aberystwyth! Cafodd pob darlithydd yn ystod fy nhair blynedd yn Aberystwyth ddylanwad enfawr arnaf. Hyd heddiw, rwy'n dweud wrth bawb nad oes yr un Brifysgol yn cymharu ag Aberystwyth.

Diolch o waelod fy nghalon am fy ngwthio i'r cam nesaf bob tro ac am agor fy llygaid i'r hyn y gallwn ei gyflawni.

Unwaith eto, diolch.  
Yn gywir,

Chloe Frances Bailey

## Blwyddyn mewn Diwydiant

Gellir dewis ein cynlluniau gradd BSc mewn Biocemeg, Geneteg a Microbioleg fel cyrsiau 4 blynedd gyda Blwyddyn integredig mewn Diwydiant.


Eleni, lleolwyd myfyrwyr ar y cynlluniau hyn mewn cwmnïau biotechnoleg amrywiol yn cynnwys Micropharm, Biocatalysts, a Sefydliad Oncoleg Catalonia (Sbaen). Mae'r lleoliadau Blwyddyn mewn Diwydiant yn gwella cyflogadwyedd, eich cyflog cychwynnol a sicrwydd eich swydd (Adolygiad Wakeham). Mae'r dyfyniadau isod gan fyfyrwyr sydd ar leoliad ar hyn o bryd yn dangos pam:

“Rwyf wedi fy lleoli mewn labordy, felly y prif brofiad a gefais yw meithrin sgiliau. Dysgais sut i osod profion cytogwenwyndra a thrypsin, trafod nitrogen hylifol, graddnodi pibedau a sut i ddefnyddio cyfarpar amrywiol arall yn y labordy. Ond, rwyf wedi dysgu hefyd sut i gyflwyno fy nghanfyddiadau mewn cyfarfodydd ac ysgrifennu protocolau gweithredu safonol i bobl eraill eu deall.”

“Rwyf bellach yn gwbl hyderus wrth drafod y rhan fwyaf o beiriannau a chyfarpar mewn labordy, ac wedi meithrin sgiliau mewn llawer o weithdrefnau prawf sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu a datblygu ensymau. Mae fy sgiliau cyfathrebu, rheoli amser, a threfnu wedi gwella'n sylweddol. Rwy'n cael fy annog bob amser i ddeall y wyddoniaeth y tu ôl i bob prawf a wnawn, sydd wedi gwneud y profiad o weithio mewn labordy yn ddiddorol iawn i fi wrth ymchwilio i ryfeddodau gwyddoniaeth.”

“Mae Alysson Turcios ar leoliad ar hyn o bryd fel rhan o'i gradd (BSc Anrh Geneteg a Biocemeg) ac yn hyrwyddo'r Flwyddyn mewn Diwydiant yn frwd. Meddai,

“Rwyf ar fy Mlwyddyn mewn Diwydiant yn Sefydliad Oncoleg Catalonia ar hyn o bryd, yn gweithio gyda grŵp ymchwil trawsfudol ac yn paratoi fy nghyhoeddiad cyntaf. Ni fyddai hyn yn bosibl heb gefnogaeth y Gwasanaeth Gyrfaoedd, Cydgysylltydd y Flwyddyn mewn Diwydiant a'r Swyddfa Erasmus a wnaeth fy helpu gyda phob cais a'm hannog i ddal ati i ymgeisio tan imi gael swydd. Rwy'n argymhell lleoliadau yn gryf, gan mai dyma'r ffordd orau o gadarnhau eich dewis o yrfa.”



Alysson yn y labordy yn ystod ei lleoliad Blwyddyn mewn Diwydiant

BIOCATALYSTS  
exceeding enzyme expectations

Generalitat de Catalunya  
gencat.cat

Institut Català d'Oncologia

MicroPharm



You can follow us on  
Twitter @IBERSbio